

Wylfa Newydd
Adroddiad ar yr Effaith Leol

Pennod 3: Datblygu Economaidd - Cyflogaeth Leol

Rhagfyr 2018

Cyf PINS: EN010007

1.0 Datblygu Economaidd – Cyflogaeth Leol

1.1 Trosolwg o'r Effeithiau

1.1.1 Mae CSYM yn gefnogol o ddatblygiad arfaethedig Wylfa Newydd oherwydd y cyfleoedd cyflogaeth a datblygu economaidd posibl yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Er gwaethaf y potensial sylweddol (maint ac ansawdd), mae angen sicrwydd a hyder i sicrhau bod capasiti a pharodrwydd pobl a busnesau lleol yn cynyddu, a bod mwy o wytnwch i reoli dadleoli llafur. Mae'r ymrwymiad 100 mlynedd a wnaed gan Hitachi Ltd i Ynys Môn fel y 'gymuned fydd yn cynnal y datblygiad' yn hanfodol i sicrhau ffyniant a lles economaidd trigolion yr Ynys ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

1.1.2 Sefydlodd CSYM Raglen Ynys Ynni Môn¹ - a fu wrthi'n frwd yn hyrwyddo rhinweddau safle Wylfa Newydd a phrosiectau ynni eraill ar Ynys Môn gyda darpar ddatblygwyr. Roedd Rhaglen Ynys Ynni Môn wedi'i seilio ar ddadansoddiad trylwyr² o'r economi leol gyda senarios yn cwmpasu dim datblygiadau ynni, adeiladu adeilad niwclear newydd, a datblygiadau eraill. Dangosodd yr ymarfer hwn fod Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) y pen yn Ynys Môn yn ddim ond 57.2% o gyfartaledd y DU (£20,000) a bod y gwaith adeiladu newydd yn rhoi'r potensial am gynydd o GYG o 10% -13% yn uwch na'r llinell sylfaen, a fyddai'n drawsnewidiol.

1.1.3 Maint, amrywiaeth ac ansawdd y cyfleoedd cyflogaeth a'r gadwyn gyflenwi sy'n deillio o Wylfa Newydd yw'r rhesymau amlycaf dros y gefnogaeth leol.

1.1.4 Effeithiau positif Prosiect Wylfa Newydd ar y farchnad lafur:

- a) Creu o leiaf 2,000 o swyddi lleol newydd ar Ynys Môn a'r tir mawr yn ystod y cyfnod adeiladu;
- b) Ymrwymiad i gyflawni 85% o gyflogaeth leol yn ystod y cyfnod gweithredol, swyddi hynod gynhyrchiol gyda chyflogau uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol;
- c) Potensial i bobl leol ymgymryd â chyfran o'r 1,000 o rolau cyfnodau segur;
- ch) Potensial i wrthdroi'r gostyngiad yn y boblogaeth oedran gweithio;
- d) Potensial i lefelau GYG gynyddu'n sylweddol yn y tymor byr.

1.1.5 Effeithiau niwtral Prosiect Wylfa Newydd ar y farchnad lafur:

- a) Mae Horizon wedi cynnig rhai sgiliau a hyfforddiant sy'n gyfyng o ran maint ac yn cael eu hystyried yn niwtral gan mai dim ond ychydig o gymorth y byddant yn eu cynnig.

1.1.6 Effeithiau negyddol Prosiect Wylfa Newydd ar y farchnad lafur:

- a) Potensial i ddadleoli llafur, gan leihau'r ychwanegiad net sy'n deillio o Wylfa Newydd gyda mesurau lliniaru annigonol i fynd i'r afael â'r effaith hon;

¹ Gwefan Rhaglen Ynys Ynni ([Dolen](#))

² Ail-asesu Targedau, Buddion a Chanlyniadau Gwaddol Ynys Ynni ac Ardal Fenter 2012 (Atodiad 3A)

- b) Busnesau Bach a Chanolig, micro-fusnesau a'r rhai hunangyflogedig yn cael eu denu i brosiect Wylfa Newydd ac yn methu â chynnal gweithgareddau busnes fel arfer (domestig a diwydiannol ysgafn) i wasanaethu anghenion yr economi leol;
- c) Dadleoli Cynnyrch.

1.2 Paratoi'r bennod hon

1.2.1 Mae CSYM wedi penodi Oxford Economics (mae Oxford Economics yn darparu arbenigedd mewn darogan a modelu ar lefelau byd-eang, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac mae eu harbenigedd yn amrywio ar draws sectorau) i feintio'r effeithiau economaidd lleol a allai ddeillio o gynigion Horizon. Mae Oxford Economics hefyd wedi gwneud dadansoddiad sylfaenol yn y gorffennol i lywio ymatebion ymgynghorol cyn ymgeisio CSYM i gynigion y prosiect³. Defnyddiwyd y gwaith a gynhyrwyd ar gyfer y Cyngor i asesu cynigion y DCO fel y'u cyflwynwyd ac i gyrraedd y casgliadau effaith a nodir yn y bennod hon. Mae hefyd wedi llywio'r cynigion a wnaed gan CSYM ynglŷn â mesurau pellach a allai leihau effeithiau **negyddol** a chynyddu effeithiau **positif**.

1.3 Cyd-destun

- 1.3.1 Economi ynys fechan yw Ynys Môn oddi ar arfordir Gogledd Cymru sef 2.2% o boblogaeth Cymru ond dim ond 1.75% o gyflogaeth y wlad. Roedd poblogaeth Ynys Môn yn 69,936 yn 2017⁴, roedd 39,996 o bobl o oedran gweithio, ac 11,986 o oed hyd at 15 oed.
- 1.3.2 Mae strwythur economi Ynys Môn yn amrywio o'r DU a Chymru gyfan. O gymharu â Chymru, mae gan Ynys Môn gyfran uwch o gyflogaeth mewn sectorau isel eu gwerth o fewn yr economi. Mae'r sectorau llety a bwyd ac adeiladu yn cyfrannu'n sylweddol at economi Ynys Môn, ac amcangyfrifir eu bod yn cyfrif am dros chwarter yr holl swyddi yn 2018⁵.
- 1.3.3 Ar wahân i brosiect Wylfa Newydd, amcangyfrifir y bydd twf cyflogaeth cyfartalog blynyddol yn arafu i 0.7% dros y cyfnod 2016 i 2030, gan arwain at 2,500 o swyddi newydd. Disgwylir i dwf gael ei hybu gan lety a bwyd (1,200 o swyddi), ac adeiladu (800 o swyddi)⁶.
- 1.3.4 Mae strwythur sectoraidd Ynys Môn yn golygu mai dim ond 73.5% o lefel y DU oedd cynhyrchiant yn 2016⁷. Gostwng wnaeth cynhyrchiant yn 2016, sy'n adlewyrchu'n rhannol y ffaith bod gweithrediadau yn yr Wylfa presennol wedi

³ Ynys Môn: Diweddariad ar ddadansoddiad economaidd llinell sylfaen a senarios twf, Oxford Economics, Mai 2017 (Atodiad 3B)

⁴ Wedi'i gymryd o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol o Nomis ([Dolen](#))

⁵ Ynys Môn: Diweddariad ar ddadansoddiad economaidd llinell sylfaen a senarios twf, Oxford Economics, Mai 2017 (Atodiad 3B)


⁶ *Ibid*

⁷ *Ibid*

dod i ben ym mis Rhagfyr 2015. O ystyried lefelau cynhyrchiant isel, mae cyflogau yn y gweithle ar gyfartaledd 20% yn is na chyfartaledd y DU.

1.3.5 Mae'r twf araf mewn cyflogaeth, y strwythur sectoraidd a'r cyflogau isel yn debygol o fod wedi dylanwadu ar ymfudo. Er bod ymfudo net o 2009 i 2017, yn **bositif** ym mhob un ond tair blynedd, mae'r duedd gyffredinol hon yn cuddio'r effaith ar y boblogaeth oedran gweithio. O 2009 i 2017 ymfudodd dros 1,400 yn fwy o drigolion rhwng 16 a 45 oed nag a ymfudodd i mewn⁸; mae ymfudo mewnol net ar gyfer y grŵp oedran hwn wedi bod yn **negyddol** bob blwyddyn ers 2009. Mewn cyferbyniad, mae ymfudo net wedi bod yn **bositif** bob blwyddyn ar gyfer y rhai rhwng 46 oed hyd at oed ymddeol, gan adlewyrchu apêl yr ardal fel lle braf i fyw neu ymddeol iddo (yn hytrach na gweithio). Mae oedran canolrif trigolion Ynys Môn (47.6) yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru (42.5) a'r DU (39.9).

Ffigwr 1: Ymfudo mewnol, Ynys Môn, 2009 i 2017




Ffynhonnell: Oxford Economics

1.3.6 Mae nifer y trigolion o oedran gweithio wedi bod yn gostwng, a rhagwelir y bydd hynny'n parhau. Felly mae'n bwysig i iechyd yr economi, ac i alluogi economi Ynys Môn i dyfu, fod nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr Ynys yn arafu a bod pobl o oedran gweithio yn cael eu denu i'r economi. Er mwyn helpu i gau'r bwlch cyflog a chynhyrchiant, mae angen i swyddi sy'n cael eu creu ar yr Ynys dalu'n dda ac yn ddeniadol i ymgeiswyr medrus uwch, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol. Gallai'r galw mawr am swyddi yn Wylfa Newydd gynorthwyo i ddenu pobl â sgiliau uwch i Ynys Môn.


⁸ *Ibid*

Ffigwr 2: Poblogaeth oedran gweithio fel cyfran o gyfanswm y boblogaeth, 2009 i 2017



1.3.7 Mae CSYM yn cydnabod y bydd prosiect Wylfa Newydd yn cynnig cyfleoedd sylweddol i'r economi leol, nid yn unig ar yr adegau adeiladu prysuraf, ond yn ystod cyfnod y prosiect adeiladu ac unwaith y bydd yn weithredol. Amcangyfrifir y bydd faint o lafur adeiladu sydd ei angen i ddatblygu Wylfa Newydd bob blwyddyn yn cael effaith sylweddol ar y prif newidynnau economaidd. Mae lefelau cyflogaeth yn y gweithle a Gwerth Ychwanegol Gros yn sylweddol uwch o 2021 i 2024 ac mae profil y swyddi sydd eu hangen yn y datblygiad niwclear newydd yn dylanwadu'n drwm ar broffil swyddi yn y gweithle a Gwerth Ychwanegol Gros yn y dyfodol ar Ynys Môn.

Ffigwr 3: Amcangyfrif o swyddi yn y gweithle, Ynys Môn 2000-2030 (PAC 3)



- 1.3.8 Sylwer: cynhyrchwyd y rhagolygon uchod yn 2017, felly maent yn wahanol i'r rhai a drafodir yn yr adran Cyd-destun.
- 1.3.9 Fodd bynnag, os yw'r buddsoddiad am fod yn wirioneddol drawsnewidiol ac yn cael effaith hirdymor, yna mae angen gwneud y mwyaf o gyfran y swyddi llafur lleol sydd eu hangen, nid dim ond ar y cyfnodau prysuraf, ond ym mhob blwyddyn o'r gwaith adeiladu a gweithredu.

1.4 Safbwynt polisi

- 1.4.1 Mae cefnogi twf ac adfywio fel ffordd o drawsnewid yr economi leol yn un o brif amcanion strategol Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (mabwysiadwyd ym mis Gorffennaf 2017). Mae'r CDLI ar y Cyd yn cydnabod bod Datblygiad Wylfa Newydd yn rhoi'r cyfle i wneud y gorau o gyfleoedd economaidd-gymdeithasol i fusnesau lleol, cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy i bobl leol (gan gynnwys rhwydwaith cynaliadwy o ddatblygiadau cysylltiedig) ac i ddatblygu gweithlu medrus gydag addysg dda.
- 1.4.2 Yn seiliedig ar y materion a godwyd yn y bennod hon, mae'r meini prawf canlynol o bolisiâu yn y CDLI ar y Cyd yn arbennig o berthnasol:
- 1.4.3 Mae Maen Prawf 9 o Bolisi PS 9 Wylfa Newydd a Datblygiadau Cysylltiedig yn gofyn am ddull rhagweithiol o gaffael, cyflogaeth ac addysg, hyfforddiant a recriwtio er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant i gymunedau lleol yn y tymor byr a'r tymor hwy.
- 1.4.4 Fel ffordd o wneud y gorau o'r cyfleoedd economaidd-gymdeithasol a fydd yn deillio o ddatblygiad Wylfa Newydd, mae'r CDLI ar y Cyd yn dyrannu ac yn diogelu amrywiaeth (maint a lleoliad) o safleoedd cyflogaeth (Polisi Strategol PS13: Darparu Cyfleoedd ar gyfer Economi sy'n Ffynnu a Pholisi CYF 1: Diogelu, Dyrannu a Chadw Tir ac Unedau at Ddibenion Cyflogaeth) ac mae'n hwyluso cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithlu drwy bolisi cefnogol i ymestyn neu i gael cyfleusterau addysg uwch/bellach newydd (Polisi ISA 3: Datblygu Addysg Bellach ac Uwch).
- 1.4.5 Mae'r materion a godwyd yn y papur hwn mewn perthynas â'r effaith ar y farchnad lafur, dadleoli'r gweithlu, a'r effaith ar yr economi ehangach yn awgrymu bod angen gwybodaeth a mesurau ychwanegol i sicrhau ei fod yn fwy cydnaws â'r disgwyliad a nodir ym maen prawf 9 o PS 9. Mae'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y CDLI ar y Cyd sy'n ymwneud â gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a ddaw yn sgil datblygiad Wylfa Newydd yn cynnwys; sicrhau bod y datblygiad yn rhoi sbardun **positif** i drawsnewid yr economi leol a chymunedau yn Ynys Môn ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy; a chyfrannu at wella ansawdd bywyd a lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol – sy'n cael eu cefnogi ymhellach a'u hamlygu yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd (GP1 Cefnogi Rhaglen Ynys Ynni Môn ac Ardal Fenter Ynys Môn; GP2: Datblygu Swyddi a Sgiliau Lleol a GP5: Twristiaeth).

1.5 Effeithiau a thystiolaeth

Cyfnod adeiladu

- 1.5.1 Mae creu o leiaf 2,000 o swyddi ar draws rhanbarth Gogledd Cymru ac ar draws ystod o lefelau sgiliau yn **effaith bositif** yn y tymor byr. Gallai'r cynnydd mewn cyfleoedd swyddi lleol hefyd fynd rhywfaint o'r ffordd tuag at wrthdroi'r gostyngiad yn y boblogaeth oedran gweithio sydd wedi digwydd yn Ynys Môn ers 2008. Bydd swyddi ychwanegol, gwella sgiliau, profiad o niwclear a buddsoddiad cyffredinol yn yr Ynys hefyd yn arwain at **effaith bositif** ar swyddi a sgiliau.
- 1.5.2 Mae cefnogaeth CSYM i Wylfa Newydd wedi'i seilio ar greu ystod eang o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol - o wasanaethau cymorth i swyddi technegol a phroffesiynol medrus iawn ar gyfer pobl leol sydd mewn gwaith ar hyn o bryd, heb waith digonol, yn gadael ysgol, coleg a phrifysgol, darpar ddychwelwyr y di-waith hirdymor a phobl ifanc sydd 'Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant' (NEET).
- 1.5.3 Mae'r cais DCO (Adroddiad ar yr Effaith Gymunedol⁹ a Datganiad Cynllunio¹⁰) yn rhoi mwy o wybodaeth am y cyfleoedd am swyddi lleol. Byddai tua 2,000 (22%) o weithwyr cartref yn cael eu cyflogi yn ystod cyfnod prysuraf y gwaith adeiladu o'r Parth Cymudo Adeiladu Dyddiol (DCCZ), a fyddai'n arwain at gynnydd mewn cyflogaeth. Awgrymodd mai dim ond 17% (1,521) yw'r gyfradd lafur leol ar gyfer y rhai sy'n byw o fewn 60 munud i'r safle (hynny yw o fewn Ardal Economaidd-gymdeithasol Allweddol Ynys Môn a'r Fenai) ac mae'r ffigur ar gyfer trigolion Ynys Môn hyd yn oed yn is ar 14% (1,256). Mae CSYM yn credu bod y ffigurau hyn yn annerbyniol o isel ac nad yw'n sicrhau bod y manteision a honnwyd ar gyfer y prosiect yn cael eu gwireddu ar yr Ynys.
- 1.5.4 O ystyried y gwaith cefndirol am y galw a'r cyflenwad sgiliau yn Ynys Môn a Gwynedd a gynhaliwyd ddiwedd 2017, mae CSYM o'r farn, gyda buddsoddiad digonol mewn addysg, sgiliau a hyfforddiant ar draws pob lefel, y gellid diogelu rhwng 2,000 a 2,250 (22% - 25% o'r cyfanswm) o swyddi lleol yn ardal Ynys Môn a thir mawr y Fenai yn unig, heb gynyddu'r risg o ddadleoli llafur yn sylweddol.
- 1.5.5 Felly, mae ffigur presennol Horizon o 17% o lafur lleol (Môn a Menai) yn rhy isel, ac nid yw'n sicrhau y gall pobl, busnesau a chadwyni cyflenwi lleol fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd swyddi sy'n deillio o Wylfa Newydd. O ganlyniad, nid yw'r mesurau y mae Horizon yn bwriadu eu darparu, a sicrhau llafur lleol yn ddigon uchelgeisiol. Felly mae effaith **bositif** creu swyddi yn llai arwyddocaol nag y gallai fod oherwydd y crynhoad o lafur lleol mewn swyddi â sgiliau is, ac felly, cyflogau is. Nid yw'r swyddi hyn yn galluogi pobl leol i fanteisio i'r eithaf ar fanteision posibl y prosiect ac felly'n lleihau'r effaith **bositif** gyffredinol ar y cymunedau fydd yn cynnal y datblygiad.

⁹ Cyfeirnod llyfrgell APP-435

¹⁰ Cyfeirnod llyfrgell APP-406

- 1.5.6 Mae maint y llafur sydd ei angen i gyflawni'r datblygiad niwclear newydd yn sylweddol (9,000 ar ei anterth), ond disgwylir i 7,000 o'r swyddi hynny gael eu cymryd gan bobl nad ydynt yn lleol. Felly, ni fydd trigolion Ynys Môn a Gogledd Cymru yn manteisio ar nifer sylweddol o fuddion economaidd na marchnad lafur Wylfa Newydd, ac o ganlyniad, bydd colled sylweddol yng nghyflogau a phrofiad y cyfnod adeiladu. Yn ogystal, credir ar hyn o bryd y bydd y cryn dipyn o gontractau'r gadwyn gyflenwi yn cael eu dyfarnu y tu allan i Ogledd Cymru. O ganlyniad, mae risg na fydd y prosiect yn cael yr effaith ddymunol, gynaliadwy, drawsnewidiol yn lleol, sef un o'r prif resymau pam mae CSYM a llawer o drigolion lleol yn cefnogi datblygiad Wylfa Newydd.
- 1.5.7 Dywed Horizon y bydd llawer o'r gyflogaeth yn ystod y gwaith adeiladu yn dod drwy'r gadwyn gyflenwi. Os nad yw prosesau recriwtio Horizon neu ei gadwyn gyflenwi yn sicrhau bod cyfleoedd llafur lleol yn cael eu darparu, ni fydd trigolion lleol yn gallu manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd. Yn anffodus, heb weld Cynllun Gweithredu'r Gadwyn Gyflenwi, ni all CSYM a busnesau lleol lunio barn digonol ar gyfleoedd y gadwyn gyflenwi. Trafodir yr effaith ar y Gadwyn Gyflenwi yn fanylach yn y Bennod Datblygu Economaidd - Cadwyn Gyflenwi.
- 1.5.8 Yn ogystal â'r uchod, roedd y wybodaeth a ddarparwyd gan Horizon yn awgrymu y byddai cryn dipyn o swyddi'n mynd i bobl y tu allan i'r ardal leol - swyddi peirianeg a rheoli â sgiliau uwch a chyflogau uwch. **Er bod creu swyddi yn Wylfa Newydd yn effaith bositif ar yr economi leol, mae CSYM yn teimlo bod maint yr effaith yn brin o fod yn drawsnewidiol.** Er enghraifft, bydd dros draean o swyddi 'lleol' yn ystod y cyfnod adeiladu prysuraf yn swyddi "gwasanaethau ar y safle, diogelwch a staff clerigol". Hoffai CSYM weld mwy o'r rolau medrus uwch ar gael i weithwyr lleol, a thrwy fesurau estynedig a sefydlwyd i helpu i wireddu hynny.
- 1.5.9 Ceir ar ddeall bod Horizon yn gweithio ar y cyd â darparwyr addysg yng Ngogledd Cymru, ond nid yw'n glir faint o leoedd newydd fydd ar gael mewn pynciau sy'n gysylltiedig ag adeiladu Wylfa Newydd, wrth i Horizon ddatblygu sgiliau lleol. Er bod CSYM wedi'i galonogi gan y rhaglen brentisiaethau, y buddsoddiad o £1m yn y Ganolfan Beirianeg newydd yng Ngrŵp Llandrillo Menai, ymrwymiad o hyd at £500,000 i Gwmni Prentis Menai, noddi cyrsiau ar gyfer pobl ddi-waith hirdymor ac ymgysylltu ag ysgolion, hoffai'r Cyngor weld tystiolaeth o sut bydd yr hyfforddiant yn datblygu dros amser i ddiwallu'r galw am lafur. Er enghraifft, faint o leoedd fydd ar gael fesul pwnc a fesul blwyddyn mewn addysg uwch ac addysg bellach. Rhaid i'r strategaeth a'r ymyriadau gefnogi'r rheini sy'n gadael yr ysgol, y rheini sy'n gweithio, y di-waith, y rhai anweithgar a'r rhai sy'n dychwelyd o lefydd eraill. Darperir tabl cryno yn adran 8 i ddangos y mesurau lliniaru y mae'n rhaid eu sicrhau i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyflogaeth lleol yn ystod y cyfnod adeiladu.

Gweithrediad

- 1.5.10 Bydd y 850 o swyddi gweithredol newydd yn creu **effaith bositif** hirdymor sylweddol i economi Ynys Môn. Ar wahân i'r gyflogaeth ei hun, mae'r swyddi hyn yn debygol o fod yn gynhyrchiol iawn. Mae'r swyddi hynod gynhyrchiol hyn

hefyd yn debygol o gynnig cyflogau uwch na'r cyfartaledd, a ddylai gyfrannu rhywfaint at wella'r bwlch rhwng cyflogau cyfartalog Ynys Môn a chyfartaledd Cymru (mesurau preswylwyr a gweithle). At hynny, mae cyflogau preswylwyr Ynys Môn wedi bod yn gyson uwch na chyflogau'r gweithle ers 2003, sy'n dangos y gall trigolion Ynys Môn ennill cyflogau uwch drwy gymudo i weithio mewn llefydd eraill. Gallai sicrhau cynifer o swyddi gweithredol â phosibl yn Wylfa helpu i wthio cyflogau yn y gweithle i fyny a darparu cyfleoedd gwaith lleol â chyflogau uwch i breswylwyr.

- 1.5.11 Mae CSYM yn cefnogi ymrwymiad Horizon i gyflawni 85% o gyflogaeth leol pan fydd Wylfa Newydd yn weithredol; serch hynny, mae'r Cyngor yn credu y dylai hyn fod yn isafswm o ran targed. Mae cefnogaeth CSYM i Wylfa Newydd wedi'i seilio ar greu swyddi medrus, hirdymor sy'n talu'n dda i bobl leol. Bydd llwyddiant y prosiect yn lleol yn cael ei benderfynu ar sail hynny.
- 1.5.12 Mae CSYM hefyd yn argymhell bod angen eglurhad ar sut caiff person ei ddiffinio'n 'lleol'. Mae CSYM yn gofyn am fabwysiadu diffiniad sy'n cydnabod nad yw gweithwyr sydd wedi byw ar Ynys Môn am gyfnod byr yn unig yn ystod y gwaith adeiladu er mwyn gweithio ar y prosiect lle nad oes ganddynt gysylltiad lleol eisoes yn 'lleol' at y diben hwn. Dylai'r diffiniad o leol gwmpasu'r boblogaeth breswyl cyn y cyfnod adeiladu a'r rhai sydd â chysylltiad lleol sy'n dychwelyd i'r Ynys neu'n adleoli iddi, ond ni ddylai gynnwys unrhyw berson y rhoddir ei gyfeiriad adeg y cais gyda'r Ardal Astudiaeth Allweddol (KSA). Mae CSYM am sicrhau bod y targed o 85% yn ystod y cyfnod gweithredu yn drigolion lleol presennol, neu gyn-breswylwyr a ddenwyd yn ôl, ac felly'n fwy tebygol o siarad Cymraeg a gwneud cyfraniad **positif** yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol.
- 1.5.13 Mae angen mwy o fanylion a sicrwydd ynglŷn â sut y cyflawnir y targed hwn (er enghraifft a oes buddsoddiad sylweddol mewn cynlluniau prentisiaeth a gwella sgiliau pobl leol), erbyn pryd, a pha strategaethau fydd yn cael eu rhoi ar waith. Nodir bod swyddi gweithredol yn cael eu creu dros y cyfnod adeiladu, ac felly mae'r gallu a'r sgiliau yn cael eu cronni'n raddol. Mae angen diffinio, cytuno a sicrhau'r strategaethau, y rhaglenni a'r adnoddau sydd eu hangen. Heb y manylion hyn, dim ond hyn a hyn o bwys y gellir ei roi gan nad yw'r mecanweithiau wedi'u rhoi yn eu lle.
- 1.5.14 Mae'r egwyddor hon hefyd yn berthnasol i'r 1,000 o weithwyr ychwanegol sydd eu hangen mewn cyfnodau segur unwaith bydd y safle yn weithredol. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am y sgiliau sydd eu hangen i ymgymryd â'r swyddi hyn er mwyn deall a oes gan y boblogaeth leol y capasiti a'r gallu i lenwi'r rolau¹¹. Os nad ydyn nhw, mae angen edrych ar effeithiau cynnal gweithlu dros dro o hyd at 1,000 o weithwyr ar y cymunedau fydd yn cynnal y datblygiad – a hynny ar wahân i'r effeithiau adeiladu. Nid yw'n briodol ystyried y bydd yr effeithiau'n llai na'r effeithiau adeiladu gan na fydd llawer o'r camau lliniaru yn ystod y cyfnod adeiladu ar waith mwyach. Hefyd, mae angen

¹¹ Byddai'r IACC yn dadlau bod gallu a phrofiad yn debygol o fodoli'n lleol o gofio gweithgarwch niwclear yn lleol yn safleoedd Magnox North yn Wylfa A a Thrawsfynydd.

ystyried ar wahân effaith mewnlifiad gweithwyr dros dro ar gymunedau. Ni ystyrir bod y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd yn ystyried yr effeithiau hyn yn ddigonol.

1.5.15 Mae angen dadansoddiad o'r galwedigaethau a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y 1,000 o swyddi hyn i lywio asesiad priodol o argaeledd llafur lleol. Yna gellir cynllunio'n briodol y buddsoddiad cysylltiedig mewn addysg, sgiliau a hyfforddiant i wneud y mwyaf o bobl lleol. Mae angen eglurder pellach os yw'r 1,000 o swyddi hyn ond yn ofynnol mewn cyfnodau segur, os ydynt yn rhai dros dro, yn rhan-amser neu'n llawn amser. Heb y wybodaeth hon, asesir bod creu rolau cyfnodau segur yn **niwtral** gan na ellir sefydlu'r manteision a'r effeithiau posibl yn llawn.

Dadleoli

1.5.16 Mae'r effaith **bositif** o greu swyddi yn cael ei lleihau ar hyn o bryd gan y potensial ar gyfer effeithiau dadleoli llafur a fyddai'n cael effaith **negyddol** ar economi gyffredinol yr Ynys ac yn niweidio'r sector adeiladu a sectorau eraill yn ystod y cyfnod adeiladu.

1.5.17 Mae'r diffiniad a fabwysiadwyd gan y Llywodraeth yn ystyried dadleoli o fuddsoddiadau/ymyriadau cyhoeddus ar gyfer y newid yng nghyfran y farchnad a'r cynnydd yn y galw am fathau penodol o lafur mewn marchnad leol. Mae "Canllaw Ychwanegedd" Partneriaethau Lloegr yn datgan:

"Mae dadleoli yn digwydd lle mae'r ymyriad yn cymryd cyfran o'r farchnad (a elwir yn ddadleoliad marchnad cynnyrch) neu lafur, tir neu gyfalaf (y cyfeirir ato fel dadleoliad marchnad ffactorau) gan gwmnïau neu sefydliadau lleol eraill.

1.5.18 Mae'r canllaw hefyd yn nodi:

"O ran dadleoliad marchnad ffactorau, gall ymyriad arwain at gynnydd yn y galw am weithwyr adeiladu. Os yw'r rhain yn brin, efallai y bydd hyn yn arwain at oedi i'r ymyriad hwn neu ymyriadau eraill neu gynnydd mewn costau".

1.5.19 Mae CSYM am fanteisio i'r eithaf ar nifer y bobl lleol sy'n cael swyddi yn Wylfa Newydd, ond maent yn ymwybodol y gallai fod yna gyfaddawd gyda dadleoli posibl, **oni bai** y cymerir camau priodol i hybu ochr gyflenwi'r economi. Nid yw'r risg o ddadleoli yn gymwys i swyddi sy'n gysylltiedig ag adeiladu yn unig.

1.5.20 Mae effeithiau prosiectau mawr sy'n dadleoli gweithwyr lleol yn amlwg yn achos Sizewell B, sef safle ynni niwclear diweddaraf y DU. Daeth adolygiad o fanteision economaidd prosiect Sizewell B, a gynhaliwyd gan Glasson (2015), i'r casgliad fod tua 600 o weithwyr yn cael eu denu i'r safle bob blwyddyn gan gyflogwyr lleol ym mlynnyddoedd cynnar y prosiect. O ystyried bod y gweithlu yn ystod yr adegau prysuraf yn Sizewell B ychydig dros 5,000 - o'i gymharu â rhwng 8,000 a 10,000 yn Wylfa Newydd - a lleoliad mwy gwledig ac anghysbell Ynys Môn (gyda chyflenwad llafur llai o fewn pellter cymudo) gallai effaith dadleoli fod yn llawer uwch yn achos prosiect Wylfa Newydd.

1.5.21 Her fawr i'r farchnad lafur bresennol o fewn y sector adeiladu ar draws Ynys Môn a Gogledd Cymru, fydd dangos eu bod yn barod ac wedi paratoi i hyrwyddo eu gallu i weithio ar ddatblygiad niwclear newydd fel Wylfa Newydd, gan fod y rhan fwyaf o'r sector adeiladu yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd yn gwasanaethu anghenion domestig a diwydiannol ysgafn ac nid prosiectau adeiladu mawr.

1.5.22 Mae dadansoddiad bwllch sgiliau adeiladu CITB 2018 ar gyfer Cymru wedi nodi bod prinder posibl o alwedigaethau yng Ngogledd Cymru lle mae'r galw a ragwelir yn debygol o fod yn uwch na'r lefelau cyflogaeth presennol. Nodir y galwedigaethau canlynol fel: Goruchwylwyr adeiladu, gweithredwyr peiriannau, mecanyddion/gosodwyr gweithfeydd, labrwr, logisteg, gweithwyr peirianeg sifil, gweithredwyr nad ydynt yn gysylltiedig ag adeiladu, peirianwyr sifil. Yn ogystal â'r dadansoddiad o'r bwllch galwedigaethol, mae dadansoddiad CITB o ddata hyfforddi Llywodraeth Cymru yn dangos mai ychydig o ddarpariaeth hyfforddiant sydd ar gael yng Ngogledd Cymru mewn rhai meysydd galwedigaethol sy'n gysylltiedig ag Adeiladu:

- a) Töwyr, Llorwyr, Gwydrwyr, Arbenigwyr amlenni adeiladau, Gweithredwyr adeiladau arbenigol, Sgaffaldwyr
- b) Gweithredwyr Gweithfeydd
- c) Peiriannydd/gosodwyr, Adeiladwyr dur/strwythurol
- ch) Labrwr
- d) Gweithredwyr Peirianeg Sifil
- dd) Peirianwyr Sifil, Penseiri, Syrfewyr

1.5.23 Felly, o fewn y diwydiant adeiladu, gan fod prinder eisoes yn y meysydd hyn, mae pryderon difrifol pe bai gweithwyr presennol y sectorau uchod yn cael eu denu i Wylfa Newydd, ynghyd â'r diffyg hyfforddiant sydd ar gael, bydd yn anodd iawn ail-lenwi'r galwedigaethau hyn.

1.5.24 Bydd Wylfa Newydd yn denu crefftwyr lleol a gweithwyr adeiladu proffesiynol yn ogystal ag unigolion a allai weithio, neu sydd yn gweithio, yn y sector lletygarwch a rheoli cyfleusterau (e.e. paratoi bwyd/arlwyo/gwasanaethau glanhau). At hynny, gyda phrinder yn y farchnad lafur leol yn barod (heb ymyrraeth), a lleoliad ymylol Ynys Môn ac economi cymharol isel o ran cyflog (a gwaith tymhorol yn y sector twristiaeth yn aml iawn), bydd yr effeithiau hyn yn cael eu chwyddo. O ganlyniad, ystyrir bod Datganiad Amgylcheddol Horizon yn tanamcangyfrif y risgiau o ddadleoli ac felly mae'r mesurau lliniaru prin sy'n cael eu hargymell yn annigonol. Fel yr argymhellir ar hyn o bryd bydd y prosiect yn arwain at effaith **negyddol** ar fusnesau a gwasanaethau cyfredol drwy ddadleoli eu gweithlu presennol a diffyg pobl sydd â sgiliau priodol i ôl-lenwi'r swyddi hyn.

1.5.25 Gallai'r sector lletygarwch a rheoli chyfleusterau yn Wylfa Newydd y mae HNP yn rhagweld cyfran uchel o staff o'r boblogaeth leol, er enghraifft, gael effaith **negyddol** ar sectorau twristiaeth a gofal cymdeithasol Ynys Môn (a sectorau eraill) o ran dadleoli. Mae twristiaeth yn gyfran sylweddol o weithgarwch

economaidd yr Ynys ac mae'n angenrheidiol cynnal iechyd economaidd hirdymor yr Ynys¹². Yn y sectorau hyn sydd â chyflogau isel yn aml a nifer cynyddol o gontractau dim oriau, mae prinder llafur eisoes ac felly maent yn agored i golli staff i brosiect Wylfa Newydd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fesurau lliniaru yn cael eu cynnig i fynd i'r afael â hyn, ac aseswyd bod yr effaith yn **negyddol**, fodd bynnag, gallai mesurau lliniaru priodol olygu bod yr effaith ar y maes hwn yn **niwtral** neu'n **bositif**. Mae dadleoli llafur yn y sector twristiaeth yn cael ei ystyried ymhellach ym mhennod Twristiaeth yr Adroddiad ar yr Effaith Leol.

1.5.26 Mae sector gofal cymdeithasol Ynys Môn eisoes yn wynebu prinder ymgeiswyr sydd â chymwysterau addas yn ogystal â gweithlu sy'n heneiddio a lefelau uchel o droiant staff. O'r herwydd, rhaid nodi mesurau lliniaru i fynd i'r afael â'r problemau hyn er mwyn cadw staff profiadol a denu gweithwyr newydd i gymryd lle gweithwyr a allai adael i weithio ar brosiect Wylfa Newydd. Diffinnir y rhain ar dudalen 27 o adroddiad CSYM "Gofal Cymdeithasol: Adolygiad o Ddadleoli yn y Farchnad Lafur Leol 'CSYM.¹³

1.5.27 Mae'r potensial i brosiectau mawr dalu premiwm cyflog yn amlwg yn y llenyddiaeth economaidd¹⁴. Canfuwyd bod gan gwmnïau mawr y gallu i dalu mwy, gyda natur fwy cynhyrchiol y gweithgaredd yn Wylfa Newydd o'i gymharu â gweithgarwch economaidd ehangach yn lleol yn awgrymu y bydd angen darparu cyflogau uwch. Ar ben hynny, mae gan gwmnïau mawr fel Horizon y gallu i rannu elw sy'n weddill gyda gweithwyr, llogi mwy o weithwyr cymwys a rhoi premiymau cyflog yn lle costau monitro uchel¹⁵. Felly, mae'r dystiolaeth bresennol yn awgrymu bod potensial i brosiect Wylfa Newydd ddenu gweithwyr ar sail y premiymau cyflog y gall gynnig - cyn ystyried y potensial am gyflogaeth fwy diogel, oriau cymdeithasol a llai o straen nag y byddai gweithwyr yn ei brofi mewn rhai sectorau eraill.

1.5.28 Mae CSYM o'r farn nad yw dadleoli wedi cael ystyriaeth briodol yn y dogfennau cais. Roedd tystiolaeth o'r arolwg (a ddarparwyd gan Jacobs) o Sizewell B yn dangos bod un o bob deg cwmni a ymatebodd wedi dweud bod y gwaith adeiladu datblygiad niwclear newydd yn eu gadael â swyddi gwag oedd yn anodd eu llenwi. Mae lefel debygol y dadleoli yn Ynys Môn yn debygol o fod yn uwch o ystyried maint yr economi, ffactorau daearyddol a phellter o gronfeydd llafur mawr a mynediad cyfyngedig i farchnadoedd swyddi eraill. Yn ogystal, roedd diweithdra Ynys Môn yn agos at y lefelau isaf erioed yn 2016¹⁶. O ystyried y capasiti cyfyngedig sy'n weddill yn lleol yn y farchnad lafur, a nifer y swyddi adeiladu sy'n cael eu talu'n dda fydd yn cael eu creu yn Wylfa Newydd, mae'r Cyngor yn poeni y gallai busnesau Ynys Môn (a'r rhai ledled Gogledd Cymru)

¹² Gweler y bennod ar dwristiaeth yn Adroddiad CSYM ar yr Effaith Leol

¹³ Gofal Cymdeithasol: Adolygiad o Ddadleoli yn y Farchnad Lafur Leol (Hydref 2018) (Atodiad 3D)

¹⁴ Adroddiad terfynol AECOM ar chwyddiant cyflogau a thystiolaeth o ddadleoli (Atodiad 3E)

¹⁵ *The Establishment-Size Wage Premium: Evidence from European Countries* (2005) - ([Dolen](#))

¹⁶ Ynys Môn: Diweddariad ar ddadansoddiad economaidd sylfaenol a senarios twf, Oxford Economics, Mai 2017 (Atodiad 3B)

brofi dadleoli llafur. Gallai'r golled hon o weithwyr profiadol waethygu oherwydd costau uwch (drwy recriwtio) a dirywiad mewn cystadleurwydd. Fel y cyfryw, mae CSYM o'r farn y gallai fod lefelau uwch o ddadleoli yn Ynys Môn nag sydd mewn lleoliadau eraill.

- 1.5.29 Mewn ymgais i asesu'r risg o ddadleoli, cynhaliwyd dadansoddiad, cyn belled ag y bo modd, i asesu a yw'r cyflenwad o lafur lleol yn cyd-fynd â'r galw ar draws Ynys Môn a Gwynedd, wrth ystyried anghenion Wylfa Newydd. Mae'n debygol y bydd diffyg yn y cyflenwad llafur sy'n gymwys i NVQ 4+ mewn pynciau STEM a phynciau adeiladu a pheirianeg NVQ lefel 3. Amcangyfrifir y bydd galw am 600 o raddedigion STEM NVQ 4+ y flwyddyn hyd at lefel uchaf o gyflogaeth. Fodd bynnag, dim ond tua 200 fydd yn cael ei ddarparu gan Brifysgol Bangor, ac felly bydd yr amodau ar gyfer dadleoli llafur sy'n gysylltiedig â STEM o gwmnïau cyfredol. Gallai cwmnïau cyfredol gael trafferth recriwtio graddedigion STEM yn y lle cyntaf. Amcangyfrifir hefyd bod galw blynyddol am 300 o raddedigion adeiladu/peirianeg NVQ 3. Er bod 330 o raddedigion mewn pynciau adeiladu a pheirianeg ar hyn o bryd, bydd cyfran yn aros mewn addysg, bydd rhai yn dewis peidio ag ymuno â'r farchnad lafur a bydd eraill yn gadael yr ardal.
- 1.5.30 Mae'n bwysig cydnabod bod angen hyfforddiant ar draws yr economi (nid yn unig mewn pynciau STEM) ac ar draws lefelau sgiliau, gan y bydd angen amrywiaeth eang o wahanol rolau a gwasanaethau ar Horizon. Mae CSYM yn gofyn am fuddsoddiad mewn addysg, sgiliau a hyfforddiant ar draws amrywiaeth o bynciau gwahanol er mwyn cynyddu'r gronfa lafur leol a lleihau effaith dadleoli.
- 1.5.31 Mae tystiolaeth ddiweddar¹⁷ yn dangos bod busnesau Cymru yn ei chael hi'n anodd llenwi swyddi gwag. Yn gyffredinol, disgwylir i effaith y Pedwerydd Chwyldro Diwydiannol a Brexit waethygu prinder sgiliau ym marchnad lafur Cymru. Yn ogystal, mae tystiolaeth o brosiectau seilwaith mawr eraill yn dangos y bydd y cyflogau uwch a delir ac amodau gwaith gwell gan brosiectau o'r fath yn denu llafur o gyflogwyr lleol sydd wedyn yn cael trafferthion recriwtio, cadw staff a chynnydd artiffisial mewn cyflog. Roedd cynnig tâl Hinkley gyfystyr â phremiwm o 36% ar gyfraddau isafswm cyflog y Cytundeb Cenedlaethol ar gyfer y Diwydiant Adeiladu Peirianeg (NACEI)¹⁸, a oedd eisoes yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Ynys Môn mewn pedwar o'r chwe gradd cyflog. Gan fod cyflogau ar Ynys Môn eisoes yn isel, mae problem dadleoli yn un go iawn, ac mae'n parhau i beri pryder i'r Cyngor a busnesau lleol. Mae cytundeb tâl tebyg yn Wylfa Newydd yn codi'r potensial o chwyddo cyflogau ar yr Ynys a dadleoli gweithwyr o weithgarwch cynhyrchiol presennol ar Ynys Môn. **Gallai hyn gael effaith negyddol ar draws pob sector a lefel o weithlu Ynys Môn gan y bydd pawb yn cael eu denu at y cyflogau a'r buddion uwch sydd ar gael.**

¹⁷ Baromedr Busnes y Brifysgol Agored ([Dolen](#))

¹⁸ Adroddiad terfynol AECOM ar chwyddiant cyflogau a thystiolaeth o ddadleoli (Atodiad 3E)

- 1.5.32 Mae yna hefyd ystod o brosiectau adeiladu sydd wedi'u cynllunio neu'n mynd rhagddynt yng Ngogledd Cymru (e.e. adeiladu tai, gwelliannau i ysgolion, Bluestone, Grid Cenedlaethol, 3ydd Bont dros y Fenai). Felly, bydd y potensial am fylchau mewn sgiliau yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd yn fwy na phetai'r adeilad niwclear newydd yn cael ei adeiladu ar ei ben ei hun. Nid yw Horizon wedi rhoi unrhyw asesiad o effeithiau cronol y prosiectau hyn ar y galw am lafur a'i gyflenwad. Yn amlwg, mae'r risg o ddadleoli llafur yn fwy ar ôl ystyried y prosiectau ychwanegol hyn hefyd. Gallai'r bylchau mewn sgiliau o'r fath a swyddi gwag sy'n anodd eu llenwi gael effaith andwyol ar wireddu a prosiectau adeiladu eraill a'u costau. Mae hyn wedi'i hepgor o Ddatganiad/asesiadau Amgylcheddol Horizon.
- 1.5.33 Mae'n bwysig cydnabod bod angen hyfforddiant ar draws yr economi (nid yn unig mewn pynciau STEM) ac ar draws lefelau sgiliau, gan y bydd angen amrywiaeth eang o wahanol rolau a gwasanaethau ar Horizon. **Mae CSYM angen buddsoddiad drwy gronfa sgiliau sylweddol a hyblyg i gynyddu'r gronfa lafur leol a lleihau effaith dadleoli.**
- 1.5.34 Er bod creu swyddi yn cael effaith **bositif**, bydd dadleoli llafur yn arwain at wanhau llafur, sgiliau a phrofiad busnesau cyfredol gan arwain at **effaith negyddol** o ganlyniad i ddadleoli.
- 1.5.35 Os bydd yr economi leol yn wynebu dadleoli, yna bydd busnesau yr effeithir arnynt yn dioddef o:
- Costau uwch:** bydd yn rhaid i fusnesau dalu costau recriwtio a hyfforddi;
 - Gostyngiad mewn capasiti:** mae'n bosibl y bydd yn rhaid i fusnesau lleol oedi prosiectau, colli terfynau amser neu hyd yn oed rhoi'r gorau i brosiectau o gofio'r golled mewn capasiti cynhyrchiant;
 - Colli profiad a chynhyrchiant:** mae'n debygol y bydd y busnesau yr effeithir arnynt yn colli llafur profiadol. Os oes dadleoli, bydd yn anoddach disodli cyn-weithwyr gyda'r un profiad. Efallai y bydd yn rhaid i gwmnïau lleol ddibynnu ar unigolion sydd newydd raddio/hyfforddi a fydd dal angen hyfforddiant yn y gwaith a mwy o waith rheoli o ddydd i ddydd. Gyda lefelau is o ran profiad, gallai hefyd fod yn anodd denu gwaith a darparu'r un gwasanaeth/cynnyrch o ansawdd uchel.
- 1.5.36 Yn dibynnu ar ddifrifoldeb y risgiau uchod, efallai y bydd busnesau lleol sy'n gweithredu ar yr ymylon yn cael eu gorfodi i gau. Mewn sectorau fel adeiladu, gall y capasiti lleol ddychwelyd wrth i'r galw am lafur adeiladu ddisgyn yn ôl ym mlynnyddoedd olaf y prosiect. Fodd bynnag, os yw'r risgiau o ddadleoli yn effeithio ar sectorau fel lletygarwch, yna gallai'r effeithiau fod yn fwy parhaol. O ystyried bod twristiaeth Ynys Môn yn dibynnu ar ymwelwyr sy'n dychwelyd, gall unrhyw effaith andwyol ar ansawdd y gwasanaeth yn y sector arwain at ganlyniadau difrifol i'r dyfodol.
- 1.5.37 Mae angen cydnabod y bydd dadleoli yn broblem yn ystod y cyfnod adeiladu, gyda mesurau effeithiol a phriodol wedi'u sicrhau yn y DCO.

Dadleoli cynnyrch

1.5.38 Gellid dadleoli cynnyrch hefyd. Bydd prosiect Wylfa Newydd yn gofyn am lawer o ddeunyddiau crai fel tywod, concrid a brics. Bydd hefyd angen cyfarpar ac offer. Nid yw CSYM wedi gweld unrhyw ddadansoddiad o'r effaith bosib ar y galw am gyflenwadau sy'n gysylltiedig ag adeiladu ar draws Gogledd Cymru, yr effaith y gallai hyn ei chael ar brosiectau eraill, gan gynnwys, er enghraifft, darparu tai. Mae gan Wylfa Newydd hefyd y potensial i ddefnyddio llawer o'r capasiti yn y gadwyn gyflenwi am gynnyrch lleol fel bwydydd. Unwaith eto, ni chynhyrchwyd unrhyw ddadansoddiad o'r effaith hon. Yn absenoldeb unrhyw asesiad a heb unrhyw ffigurau gan Horizon i gynnal asesiad o'r fath, **ni all CSYM benderfynu a yw hyn yn effaith negyddol, niwtral neu bositif.**

1.5.39 Am fwy o wybodaeth ar ddadleoli cynnyrch, gweler Atodiad 5B o bennod Twristiaeth yr Adroddiad ar yr Effaith Leol.

1.6 Bylchau mewn gwybodaeth

1.6.1 Dro ar ôl tro, mae CSYM wedi codi pwysigrwydd gwneud y gorau o gyflogaeth leol, gan liniaru yn erbyn dadleoli posibl a gwneud y mwyaf o gyfleoedd y gadwyn gyflenwi o PAC1 yn 2014 i PAC3 yn 2017, ac yn parhau i wneud hynny ar ôl cyflwyno'r DCO. Felly, mae'n siomedig nad yw cyflogaeth yn ystod y cyfnod adeiladu a dadleoli llafur wedi cael yr amlygrwydd a'r amddiffyniad y mae'n eu haeddu yn nogfennau'r DCO. Mae manylion sydd dal heb eu cynnwys yng ngwybodaeth y DCO heb roi sylw llawn i'r farchnad lafur, sgiliau, dadleoli ac effeithiau economaidd.

1.6.2 Er bod data proffil y gweithlu adeiladu yn ddefnyddiol wrth rannu swyddi fesul categori eang, fesul safle, a dadansoddiad masnach, nid yw'n nodi lefelau cymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd. Er enghraifft, mae CSYM yn ansicr sut byddai'r galw am lafur yn y dyfodol yn edrych os yw'n cael ei rannu fesul lefel cymhwyster a phwnc (e.e. X o raddedigion STEM, Y nifer o drydanwyr ar NVQ lefel 3, ac ati). O ganlyniad, nid oes dealltwriaeth glir o ba hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen gan addysg uwch ac addysg bellach i ateb y galw gan Horizon. Er bod CSYM a'i bartneriaid wedi gwneud eu dadansoddiad eu hunain o'r galw a'r cyflenwad sgiliau, mae'r diffyg data ar lefelau sgiliau angenrheidiol ac ymrwymadau tebygol yn y dyfodol i ymestyn hyfforddiant ar lefel addysg bellach ac addysg uwch yn golygu bod y dadansoddiad wedi gorfod dibynnu ar gyfartaleddau'r economi .

1.6.3 Yn gysylltiedig â'r uchod, nid oes digon o wybodaeth chwaith ynglŷn â'r gofyniad am sgiliau ychwanegol yn y gadwyn gyflenwi uniongyrchol. Gan nad yw CSYM wedi gweld y SCAP, ni all lunio ei gasgliadau gwybodus ei hun.

1.6.4 Yn y Strategaeth Swyddi a Sgiliau¹⁹, mae Horizon yn nodi y bydd ei ddull o gynllunio sgiliau yn cael ei arwain gan y galw, gan ganolbwyntio ar gyfleoedd cyflogaeth a defnyddio rhagolygon cyfredol y farchnad lafur. Fodd bynnag, mae'n mynd ymlaen i ddweud eu bod yn dal i weithio ar ofynion y prosiect.

¹⁹Cyfeirnod llyfrgell APP-411

Felly, nid yw'r Strategaeth yn darparu'r lefel o fanylder sy'n ofynnol nac yn ddisgwyliedig ar hyn o bryd.

- 1.6.5 Yn ogystal, roedd CSYM yn gobeithio y byddai'r Strategaeth Swyddi a Sgiliau wedi ystyried sut byddai Wylfa Newydd yn effeithio ar sectorau y tu allan i beirianeg ac adeiladu. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd galw sylweddol am staff arlwyo a diogelwch. Gallai effeithio'n andwyol ar bob sector a dylid ystyried hynny.

1.7 Rhwymedigaethau a gofynion

- 1.7.1 Mae CSYM yn cydnabod y bydd prosiect Wylfa Newydd yn cynnig cyfleoedd sylweddol i'r economi leol. Bydd creu swyddi yn cael effaith **bositif** ar unwaith, a gallai buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant roi hwb i ochr gyflenwi'r economi drwy gronfa lafur fwy gyda lefelau uwch o gynhyrchiant a thrwy ddarparu buddion gwaddol.

- 1.7.2 O ganlyniad, mae CSYM yn ei gwneud yn ofynnol i'r Datblygwr roi mesurau ar waith i sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r gweithlu lleol a busnesau lleol er mwyn cyflawni'r effeithiau **positif** a addawyd ar gyfer y prosiect. O'r herwydd, mae'n bwysig bod llafur lleol yn cael eu hannog, eu cefnogi ac yn manteisio i'r eithaf ar swyddi Wylfa Newydd yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredol. Yn yr un modd, mae'n bwysig bod cyfleoedd y gadwyn gyflenwi yn cael eu hyrwyddo'n gyflym ac yn eang ymhlith cwmnïau lleol a bod digon o lefydd yn y ddarpariaeth cymorth a hyfforddiant i ddiwallu'r galw gan drigolion a busnesau Ynys Môn mewn ffordd brydlon.

- 1.7.3 Mae CSYM yn ei gwneud yn ofynnol i ymyriadau (fel lleoedd adeiladu ychwanegol a lleoedd sy'n gysylltiedig â STEM yng Ngrŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor) gael eu rhoi ar waith cyn i'r effeithiau dadleoli posibl hyn ddigwydd. Fel arall, bydd hi'n rhy hwyr i oresgyn yr effaith andwyol a bydd yr economi yn dioddef a bydd effaith **negyddol**.

- 1.7.4 Gallai hyn gynnwys darparu lleoedd ychwanegol (a'u hariannu) yn Grŵp Llandrillo Menai, Prifysgol Bangor, neu Glyndŵr. Gallai hefyd olygu cynllunio ymyriadau i ddenu trigolion Gogledd Cymru sy'n astudio pynciau STEM yng ngweddill y DU yn ôl i Ynys Môn ar ôl graddio. Gallai gwella sgiliau pobl leol a allai fod heb waith digonol (ee gweithwyr medrus gafodd eu diswyddo oherwydd cau Alwminiwm Môn neu Wylfa Magnox) sicrhau bod pobl leol yn manteisio ar rai o'r swyddi medrus hyn. Gallai hyn arwain at sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer cyfnod gweithredol Wylfa Newydd a chyfnodau segur.

- 1.7.5 O ganlyniad, gofynnir am ymrwymiad y bydd lleoedd adeiladu a pheirianeg ychwanegol ar gael yng Ngrŵp Llandrillo Menai (addysg bellach) i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg mewn sgiliau lleol. Hoffai CSYM hefyd weld lleoedd ychwanegol yn gysylltiedig â STEM ar gael ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr.

- 1.7.6 Mae CSYM hefyd wedi nodi'r meysydd canlynol sy'n peri pryder iddynt a mesurau i fynd i'r afael â'r rhain:

- a) Monitro'r capasiti a'r swyddi sy'n anodd eu llenwi yn y farchnad lafur: dylai Horizon fonitro o ble mae recriwtiaid wedi dod, er enghraifft addysg, cyflogaeth neu ddiweithdra. Yn achos cyflogaeth, pa gwmni a sector maen nhw wedi'i adael.
 - b) Lleoedd ychwanegol mewn addysg: mae angen cynyddu lleoedd STEM mewn sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Fodd bynnag, gan fod graddau'n cymryd o leiaf 3 blynedd (gallai cyrsiau trosi ôl-raddedig fod yn opsiwn cyflymach) dim ond ar lefel NVQ 4 y bydd lleoedd ychwanegol yn effeithiol os cânt eu cyflwyno ym mlwyddyn academaidd 2019/20.
 - c) Orlhain y rhai sy'n gadael ysgol a graddedigion: ar hyd llinellau tebyg i Llwybro/Routes. Byddai hyn yn helpu i olrhain gyrfaedd a datblygiad unigolion, a gallai helpu i nodi a thargedu ymgeiswyr posibl ar gyfer swyddi gwag sy'n anodd eu llenwi.
- ch) Hyrwyddo prosiectau dychwelyd i'r gwaith: cefnogi prosiectau a rhaglenni sy'n sicrhau bod y rhai sydd allan o waith yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael yn y farchnad lafur. Efallai y bydd angen cymorth hefyd i gynorthwyo'r rhai sy'n ceisio dychwelyd i'r farchnad lafur, a allai fod â prinder rhai o'r sgiliau a'r cymwyseddau sydd eu hangen i wneud hynny.
- d) Cyrsiau atodol neu gyrsiau penodol ar niwclear: fel bod unigolion lled fedrus a rhannol fedrus yn gallu gwella sgiliau a dod yn rhan o'r gweithlu.

1.8 Cydymffurfiaeth Llesiant

- 1.8.1 Gwnaed asesiad Llesiant llawn ar ran CSYM gan Wood ac fe'i cyflwynir gyda'r adroddiad hwn²⁰. Yng nghyd-destun y bennod hon, mae CSYM o'r farn bod gan y prosiect y potensial i gyfrannu at gyflawni nod Llesiant 1 yn benodol: "Cymru ffyniannus" o'r Ddeddf²¹ ac at amcan 1 "Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus yn yr hirdymor" o Gynllun Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.²²

1.9 Adeiladu

- 1.9.1 Bydd datblygu Wylfa Newydd yn cynnwys gweithlu adeiladu o 9,000 yn ystod y cyfnodau prysuraf, a bydd y gweithlu adeiladu mawr hwnnw yn cael nifer o effeithiau buddiol a **negyddol** ar gyflawni amcanion Llesiant, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â sicrhau swyddi o ansawdd a chartrefi fforddiadwy, a sicrhau cymunedau ffyniannus a llewyrchus. Gall y prosiect hefyd gael effaith tymor byr ar newid demograffig gan y gallai gyfrannu at gadw pobl ifanc wrth greu swyddi newydd.
- 1.9.2 Yn ystod y gwaith adeiladu, mae Horizon yn amcangyfrif y gallai dros 2,000 o weithwyr ddod o gymunedau lleol ac y gallai hyn arwain at gynnydd mewn

²⁰ Adroddiad Llesiant Ynys Môn (Atodiad 3F)

²¹ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ([Dolen](#))

²² Amcan Llesiant Gwynedd a Môn wedi'i gymryd o Gynllun Llesiant drafft Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn ([Dolen](#))

cyflogau cyfartalog, datblygu sgiliau'n gyflym a chadw'r boblogaeth. Efallai y bydd gweithwyr lleol yn gadael eu swyddi presennol i fanteisio ar swyddi sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Heb fesurau lliniaru, gallai hyn arwain at swyddi gwag mewn rhai mathau o ddiwydiannau sy'n talu'n llai ond eto'n dyngedfennol, fel gofal i oedolion a phlant. Mae angen mesurau i liniaru effeithiau'r dadleoli posibl hyn er mwyn atal effeithiau llesiant **negyddol**.

1.10 Gweithrediad

1.10.1 Mae'r asesiad yn cydnabod bod hyn yn debygol o gefnogi'r broses o gyflawni nifer o amcanion llesiant sy'n gysylltiedig â chynnal cymunedau ffyniannus a llewyrchus, sicrhau swyddi o ansawdd da, mynd i'r afael â thlodi, a chefnogi'r Gymraeg. Bydd gweithredu addysg effeithiol mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg ar draws yr ynys yn helpu i gael mynediad at y cyfleoedd a all godi. Mae darparu addysg hefyd yn ganolog i amcanion llesiant sy'n ymwneud â sicrhau bod cyfleoedd ar waith i blant lwyddo. Mae gweithredu'r Strategaeth Swyddi a Sgiliau arfaethedig yn ganolog. O'i gynllunio'n briodol, mae gan y prosiect y potensial i wella gwytnwch mewn cymunedau lleol. Dylai darparu swyddi hirdymor â chyflogau da annog y boblogaeth i aros, gan gryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant.

1.11 Tabl Crynhoi

1.11.1 Cyfnod Adeiladu

| Effaith | Disgrifiad | Sgôr | Mesurau Lliniaru |
|-----------------------------|---|----------------|---|
| Creu swyddi adeiladu | Yn gyffredinol, mae creu swyddi newydd yn cael effaith positif . Fodd bynnag, ni ellir gwneud y gorau o'r effaith positif leol oni bai bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau y gall y llafurlu lleol gymryd mantais | Positif | Buddsoddi mewn Addysg a Hyfforddiant i alluogi pobl leol i fod yn rhan o'r gronfa lafur ehangach. Dylid cynllunio'r rhain i gynorthwyo: <ol style="list-style-type: none"> 1. Pobl sy'n gweithio ar hyn o bryd gyda'r sgiliau angenrheidiol 2. Y rhai sy'n gweithio ond sydd angen sgiliau ychwanegol i fodloni gofynion penodol y Prosiectau EIP 3. Pobl sydd wedi'u diswyddo yn dilyn cau swyddi yn ddiweddar 4. Pobl sydd allan o waith gan gynnwys pobl ddi-waith hirdymor (hyrwyddo rhaglenni dychwelyd i'r gwaith) 5. Pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET) |

| | | | |
|------------------------|---|-----------------|---|
| | | | <p>6. Pobl leol sydd wedi symud o Ynys Môn i gael gwaith a allai gael eu denu yn ôl gan y swyddi newydd sydd ar gael</p> <p>7. Gwella sgiliau er mwyn galluogi llafur lleol i gael mynediad at swyddi proffesiynol a rheoli sy'n talu mwy</p> |
| Dadleoli swyddi | Bydd dadleoli gweithwyr i brosiect Wylfa yn niweidio sectorau a busnesau eraill | Negyddol | <p>1. Buddsoddi i wella sgiliau pobl leol i'w galluogi i ôl-lenwi'r rolau hyn (gan gynnwys NEETs, y rhai heb waith digonol, pobl ddi-waith) a fyddai'n cynyddu ochr gyflenwi'r economi. Yn arbennig i ôl-lenwi rolau mewn sectorau allweddol fel Twristiaeth a Gofal Cymdeithasol²³</p> <p>2. Gwella sgiliau pobl allan o anweithgarwch a diweithdra gan gynnwys NEETs i mewn i waith</p> <p>3. Gwella sgiliau'r rhai sydd heb waith digonol i gael swyddi o ansawdd uwch</p> <p>4. Gwella sgiliau'r rhai sydd eisoes mewn cyflogaeth i gael swyddi o ansawdd uwch</p> <p>5. Monitro capasiti a swyddi sy'n anodd eu llenwi yn y farchnad lafur</p> <p>6. Cyfnewid gwybodaeth/ cyngor gyrfaoedd</p> <p>7. Lleoedd ychwanegol mewn addysg</p> <p>8. Orlhain y rhai sy'n gadael ysgol a graddedigion</p> <p>9. Denu'r rhai sydd wedi gadael i ddychwelyd</p> <p>10. Hyrwyddo prosiectau dychwelyd i'r gwaith</p> <p>11. Cynllun gweithredu manwl ar gyfer y gadwyn gyflenwi.</p> |

²³ Adolygiad Gofal Cymdeithasol o Ddadleoli yn y Farchnad Lafur Leol (Hydref 2018) (Atodiad 3D)

1.11.2 Cyfnod Gweithredol

| Effaith | Disgrifiad | Sgôr | Mesurau Lliniaru |
|----------------------------------|--|----------------|--|
| Creu rolau gweithredol | Yn gyffredinol, mae creu swyddi newydd yn cael effaith positif . Fodd bynnag, ni ellir gwneud y gorau o'r effaith positif bosib oni bai bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau y gall y llafurlu lleol gael mynediad i'r swyddi a grëwyd. | Positif | <p>Buddsoddi mewn Addysg a Hyfforddiant i alluogi pobl leol i fod yn rhan o'r gronfa lafur ehangach.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Buddsoddi mewn Addysg ar lefelau cynradd ac uwchradd i ddarparu gwasanaethau addysg o ansawdd fel platfform i'r genhedlaeth nesaf gael swyddi hirdymor yn Wylfa Newydd 2. Creu lleoedd ychwanegol mewn addysg a chynyddu lleoedd STEM mewn Addysg Uwch ac Addysg Bellach 3. Cynlluniau prentisiaeth ôl-16+ a graddedigion 4. Ail-sgilio gweithwyr o'r cyfnod adeiladu i'w galluogi i drosglwyddo o'r cyfnod adeiladu i'r cyfnod gweithredol (gan gynnwys cyfnodau segur a gwasanaethu) 5. Gwella sgiliau er mwyn galluogi gweithwyr lleol i gael mynediad i'r rolau hyn. |
| Creu rolau cyfnodau segur | Nid oes digon o wybodaeth am y rolau hyn, eu hyd, lefel y sgiliau a phroffil tebygol y gweithwyr i ganiatáu asesiad o unrhyw fantais positif bosib drwy greu swyddi ac effeithiau negyddol o gynnal gweithlu newydd dros dro. | Niwtral | Mae angen mwy o wybodaeth am y rolau hyn a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni rolau o'r fath er mwyn pennu mesurau lliniaru addas i alluogi pobl leol i gyflawni rolau o'r fath. |

GRAPH 1

| | |
|-------------|------------|
| 16 to 45 | 16 i 45 |
| 46 to 64/69 | 46 i 64/69 |
| 16 to 64/69 | 16 i 64/69 |

GRAPH 2

| | |
|----------|----------|
| Anglesey | Ynys Môn |
| Wales | Cymru |
| UK | DU |

GRAPH 3

| | |
|-----------|-----------------|
| Forecasts | Rhagolygon |
| Scenario | Senario |
| Baseline | Llinell sylfaen |